

TREVITHICK, RICHARD (1771 - 1833), peiriannydd

Enw: Richard Trevithick
Dyddiad geni: 1771
Dyddiad marw: 1833
Rhiant: Anne Trevithick (née Teague)
Rhiant: Richard Trevithick
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: peiriannydd
Maes gweithgaredd: Peirianeg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd 13 Ebrill 1771 yn Illogan, Cernyw, unig fab Richard Trevithick, peiriannydd a rheolwr gwaith mwyn Dolcoath, etc., a'i wraig Anne. Wedi cyfnod o addysg yn Camborne, daeth y mab yn beiriannydd celfydd a dangosodd fod ganddo allu neilltuol o ddyfeisgar, yn enwedig yng nghynllunio a gwella'r mathau gwahanol o beiriannau a ddefnyddid i gludo mwynau a draenio gweithydd mwyn. Erbyn Nadolig 1801 yr ydoedd wedi cynllunio y peiriant cyntaf a allai drafaelio ar y ffordd fawr yn ei nerth ei hun; ar y dydd cyn y Nadolig cludodd y peiriant ager hwn rai personau. Yn 1802 cymerth Trevithick batent ar ei ddyfais, a alwai ef yn welliant ar ddyfais James Watt. Gwnaeth beiriant arall yn 1802; trafaeliodd hwn 10 milltir drwy strydoedd Llundain yn 1803. Rhywbryd yn 1803 cyflogwyd y dyfeisydd yn beiriannydd gan [Samuel Homfray](#), meist'r gwaith haearn Penydarren, gerllaw Merthyr Tydfil, a chyn hir yr oedd yn brysur yn gwneuthur peiriant y gobeithid y medrid ei ddefnyddio ar y ffordd dram newydd a wnaethid i gludo haearn o weithydd Penydarren, Dowlais, a 'Plymouth,' i Abercynon. Os gellid ei ddefnyddio i'r pwrpas hwnnw byddid yn osgoi gorfod defnyddio'r gamlas a oedd yn perthyn, gan mwyaf, i [Richard Crawshay](#), y cydymgeisydd ym myd y diwydiant haearn. Erbyn 13 Chwefror 1804 yr oedd y peiriant yn barod, a phrofwyd ef ar y ffordd dram. Cafwyd arbrawf yng ngwydd y cyhoedd ar 21 Chwefror; gweler hanes yr arbrawf yn rhai o'r ffynonellau, yn enwedig y newyddiaduron, a enwir ar waelod yr erthygl hon. Ar 19 Mawrth 1934 dadorchuddiwyd ym Merthyr Tydfil gofodail yn coffáu'r amgylchiad. Bu Trevithick farw yn Dartford, 22 Ebrill 1833.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

The Cambrian, 25 Chwefror 1804

Western Mail, 14 Mawrth 1925, 14 a 19 Ebrill 1934

The Merthyr Express, 31 Rhagfyr 1932

F. Trevithick, *Life of Richard Trevithick* (1872)

Richard Trevithick, the Engineer and the Man (1934)

Memorial edition of the Life of Richard Trevithick (London 1883)

A History of Carmarthenshire, ii, 344-5 (cyfeiriad at beiriant gan Trevithick a ddefnyddiwyd ar lofa Alexander Raby yn Llanelly)

Colliery Guardian, 8 Awst 1930

Charles Wilkins, *The history of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tydfil 1867)

Charles Wilkins, *The History of the Iron, Steel, Tinplate and - other Trades of Wales with descriptive sketches of the land and the people during the great industrial era under review* (Merthyr Tydfil 1903)

The story of Merthyr Tydfil (Merthyr Tydfil 1932)

The Listener, 19 Ebrill 1933

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Trevithick](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [42620219](#)

Wikidata: [Q217157](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

